

Cofnodion Pwyllgor 16.02.21 - drwy 'Zoom'

Yn Bresennol

Cen Llwyd	Alun Evans (Yn y gadair)
Mary Davies	Aled Dafis
Pît Dafis	Ann Harris
Gareth Lloyd	Bleddyn Davies

Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwr Cecil Jones.

Cofnodion

Cynigiwyd cofnodion mis Ionawr yn gywir gan y Cyng Aled Dafis ac ategwyd hyn gan y Cyng Cen Llwyd ar ôl nodi fod trafodaeth hefyd wedi cymryd lle ynglyn a phrynu 'Zoom' proffesiynol

Materion yn Codi o'r Cofnodion

Heledd Gwyndaf Mi roedd pawb yn unfrydol ynglyn a chefnogi cynnwys y ddogfen drafft yma. Mi fydd y clerc yn danfon llythyr yn datgan cefnogaeth y Cyngor at Heledd Gwyndaf.



Cais i'r Cyngor
Cymuned.docx

Tudalen 'Facebook' Mae'r clerc wedi dosbarthu'r cyfarwyddiadau Facebook o safbwynt Cynghorau Cymunedol. Cytunwyd i fwrw ymlaen gyda creu tudalen. Wnaeth y Cyng Aled Dafis gytuno i gymryd cyfrifoldeb dros y dudaelen dros dro.

'Zoom' Pendefynwyd gohirio uwchraddio i'r 'Zoom' proffesiynol' hyd penodiad clerc newydd.

Ceisiadau Cynllunio

A210012 Crown Inn, Llwyndafydd – Newidiadau i'r caniatad cynllunio presennol – wnaeth Sian Holder, Swyddog Cynllunio ddiweddar Cyngor am y ffaith y bydd yn rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno cais o'r newydd yn hytrach na newid y cais presennol.

A2105667 Brynawel, Talgarreg – Codi estyniad un llawr i gefn y tŷ – Mynegwyd pryder ynglyn ag oblygiadau preifatrwydd i'r tai cyfagos. Mae'r man eistedd allanol arfaethedig yn edrych dros y tai cyfagos.

Gohebiaeth

Neuadd Goffa Talgarreg Derbyniwyd llythyr oddi wrth Ann Jones, Ysgrifennydd cofnodion yn diolch am y cyfraniad ariannol.

Shân Gwyn Wnaeth y clerc gyflwyno llythyr yn datgan ei dymuniad i ymddiswyddo o'r swydd o Clerc/Swyddog Cyfrifoldeb Ariannol i Gyngor Cymuned Llandysilio-go-go. U mae wedi cyflwyno cynnod o dri mis o rybudd er mwyn medru cyflogi olynnydd. Diolchwyd iddi am ei gwasanaeth dros y blynyddoedd. Penderfynwyd cysylltu gyda Un Llais Cymru am fanylion hysbysebu'r swydd. Mi fydd y clerc yn trefnu i'r hysbyseb ymddangos yn y Gambo, Cambrian News a tudalen gwefan y Cyngor.

Taliadau

Dŵr Cymru £59.09

Unrhyw Fater Arall

Arwyddion Blwchyfadfa Nodwyd nad ydy'r arwyddion newydd wedi eu gosod hyn yma.

Baneri Mi fydd y clerc yn archebu baneri newydd ar gyfer Caerwedros a Thalgarreg

Gwteri Man angen gwacáu'r gwteri yn y lleoliadau canlynol:-

- Rhiw ger Glennydd, Talgarreg
- Gyferbyn a Bryndelyn
- Bwlchyfadfa
- Gwenlli i lawr i Gaerwedros

Sbwriel Mi fydd y clerc yn gofyn i'r Cyngor Sir i gasglu'r matras swydd wedi ei ollwng ger groesffordd isaf Blaenglowon Fawr.

Heol o Bost Bach i Plwmp Mae yna dyllau sylweddol yn arwyneb y ffordd yma. Mi fydd y clerc yn cysylltu gyda'r Cyngor Sir.